



Cyngor ar Bopeth Cymru

# Adolygiad blynyddol



20<sup>12</sup><sub>13</sub>

# Yng Nghymru yn 2012/13

**495,000**

o faterion cynghori wedi cael sylw

**153,000**

o gleientiaid unigol wedi cael cyngor

**1.15 miliwn**

o ymweliadau ag adran Cymru o'n gwefan hunangymorth

[www.adviceguide.org.uk](http://www.adviceguide.org.uk)

**7,500**

o ymweliadau â chynnwys yn yr iaith Gymraeg ar [www.adviceguide.org.uk](http://www.adviceguide.org.uk)

**259**

o leoliadau lle mae'r gwasanaeth yn darparu cyngor am ddim ac annibynnol

**23** aelod o Gyngor ar Bopeth yng Nghymru



Dilynwch ni ar  
[twitter.com/CitizensAdvice](https://twitter.com/CitizensAdvice)



Hoffwch ni ar Facebook  
[facebook.com/CitizensAdvice](https://facebook.com/CitizensAdvice)



Gwylwch ein ffilmiau ar YouTube  
[youtube.com/CitizensAdvice](https://youtube.com/CitizensAdvice)

I ddod o hyd i'ch canolfan CAB leol ar-lein:  
Gweler [www.citizensadvice.org.uk/getadvice](http://www.citizensadvice.org.uk/getadvice)

I gael cyngor ar-lein:  
Gweler [www.adviceguide.org.uk](http://www.adviceguide.org.uk)

“

Roedd y gwasanaeth a dderbyniais heb ei ail ac yn hynod broffesiynol. Cynorthwyodd i liniaru pwysau yn ystod cyfnod anodd.

**Adborth gan gleient**

”

# Cyflwyniad

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn benderfynol o greu cymdeithas decach, felly rydym yn falch i dros **153,000** o bobl yng Nghymru ddod at ein gwasanaeth am gyngor eleni, ar dros **495,000** o faterion, a bod llawer mwy wedi defnyddio ein gwasanaethau ar-lein. Mae ein sesiynau addysg ariannol wedi grymuso pobl i gymryd rheolaeth dros eu materion ariannol ac rydym wedi parhau i ymgyrchu am newidiadau o ran polisi i atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf.



Mae'r lefel hon o gymorth yn gofyn am ymrwymiad rhyfeddol gan dros **600** o wirfoddolwyr ymroddgar, a'r staff sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw, i helpu i newid bywydau pobl ar draws y wlad i gyd. Allwn ni ddim diolch digon iddynt.

Mae angen gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn awr yn fwy nag erioed. Y llynedd, cafodd economi sy'n gwegian, toriadau mewn gwariant cyhoeddus a chyfres o ddiwygiadau yr effaith fwyaf ar rai yn ennill cyflog isel, teuluoedd a'r bobl dlotaf yn ein cymunedau. Ymddengys y dyfodol yn heriol i lawer mwy o bobl, ac mae hyn yn golygu fod ein cyngor a'n gwaith dylanwadu'n bwysicach nag erioed.

Mae arian yn brin, y galw'n uchel ac yn codi, a rhaid i ni ganolbwyntio'n fwy manwl nag erioed ar yr hyn sy'n bwysig i'n cleientiaid.

Rhaid i ni barhau i wella'r hyn a wnawn, hyd yn oed pan fo'r esgid yn gwasgu. Eleni, felly, rydym wedi parhau i symud ymlaen drwy wneud y canlynol:

- ymateb i Adolygiad Llywodraeth Cymru o Wasanaethau Cyngori ar effaith diwygiadau i gymorth cyfreithiol a lles i'r dyfodol i sicrhau bod anghenion ein cleientiaid yn cael eu deall
- darparu cyngor y sicrhawyd ei ansawdd ar gyfer y problemau y mae pobl yn eu hwynebu
- parhau i sefyll yn gadarn dros gydraddoldeb drwy ein darpariaeth cyngor ar wahaniaethu
- cynllunio ein blaenoriaethau polisi ac ymgyrchu mor gadarn ag erioed ar faterion allweddol megis diwygio lles
- tynnu sylw at y materion defnyddwyr sydd fwyaf pwysig i'n cleientiaid
- darparu cyngor ar hawlio budd-daliadau lles ledled Cymru
- gwella mynediad dros y ffôn at ein gwasanaethau drwy Linell Gyngor Cymru.

Gyda'n gilydd byddwn yn galluogi cadw rhwydwaith cryf a chynaliadwy o ganolfannau cyngori, yn parhau i gael ein gwerthfawrogi am wasanaethau cyngori rhagorol a hygyrch, yn cael ein parchu a'n gwerthfawrogi gan wneuthurwyr polisiau ac yn cael ein ceisio gan gyllidwyr. Yn bwysicaf oll, byddwn yn ymdrechu i gael ein gwerthfawrogi gan gleientiaid a chymunedau.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn edrych ymlaen i'r dyfodol. Rydym yn gryf ac yn benderfynol, a byddwn yn gwneud popeth a allwn i sicrhau bod cymdeithas yn decach.

**Fran Targett**

**Cyfarwyddwr – Cyngor ar Bopeth Cymru**

# Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud

## Ni yw elusen gynghori fwyaf y DU

Yn 2012/13 yng Nghymru, cynorthwyodd Cyngor ar Bopeth Cymru dros 153,000 o bobl gyda 495,000 o broblemau.

Sefydlwyd gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn 1939 ac mae'n parhau yn ddarparwr cyngor trydydd sector integredig mwyaf y DU. Rydym yn cynorthwyo pobl ledled Cymru a Lloegr i ddatrys eu problemau. Rydym yn gallu delio ag unrhyw fater gan unrhyw un, o ddyledion a chyflogaeth i ddefnyddwyr a thai, a phopeth yn y canol. Mae ein cyngor yn dal yn rhad ac am ddim, yn annibynnol, yn gyfrinachol, yn ddiuedd, a'i ansawdd wedi'i sicrhau.

Ond rydym ni yma ar gyfer mwy nag argyfyngau yn unig – rydym ni hefyd yn defnyddio straeon cleientiaid yn ddiennw i ymgyrchu dros newid polisi a fydd o fudd i'r boblogaeth gyfan.

## Rydym yn lleol ac yn genedlaethol

Mae gan Cyngor ar Bopeth Cymru rwydwaith o 23 o ganolfannau yng Nghymru – y cyfan yn elusennau unigol – yn darparu cyngor o 259 o leoliadau cymunedol. Mae hyn yn golygu ein bod yn cael ein rhedeg gan gymunedau lleol i gwrdd ag anghenion lleol.

Mae pob canolfan yn perthyn i'r gymdeithas o aelodau, Cyngor ar Bopeth, sy'n darparu TG, hyfforddiant a chefnogaeth weithredol ac yn cydlynu gweithredu'n genedlaethol i fynd i'r afael â'r problemau eang a welwn.

Drwy'r gefnogaeth mae'n ei darparu, mae Cyngor ar Bopeth yn galluogi'r canolfannau i gynnig y cyngor o'r safon uchaf i'w trigolion lleol. Yn ei thro, mae tystiolaeth y cleientiaid a gyflwynir gan y canolfannau'n tynnu sylw Cyngor ar Bopeth at y problemau eang sydd angen sylw ar lefel genedlaethol.

Llywodraethir Cyngor ar Bopeth Cymru gan Bwyllgor Cyngor ar Bopeth Cymru, is-bwyllgor o Fwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor ar Bopeth, gyda phwerau a ddirprwywyd i bennu polisiau penodol ar gyfer y gwasanaeth yng Nghymru.

I gael gwybod mwy am ein gwasanaethau ffôn gan gynnwys costau galwadau ewch i [www.citizensadvice.org.uk/getadvice](http://www.citizensadvice.org.uk/getadvice) neu cysylltwch â'ch canolfan CAB leol.

## Rydym yn ei gwneud yn haws cael gafael ar ein gwasanaethau

Gall cleientiaid gael gafael ar wybodaeth a chyngor drwy wasanaethau wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn a'r e-bost ac ar-lein drwy [adviceguide.org.uk](http://adviceguide.org.uk)

Yn ogystal â'n hadeiladau ar y stryd fawr, fe welwch ein bod yn darparu cyngor o leoliadau megis canolfannau cymunedol, meddygfeydd, llysoedd a charchardai.

## Llinell Gyngor Cymru

**08444 77 20 20**

Llinell Gyngor Cymru yw gwasanaeth ffôn Cyngor ar Bopeth i Gymru, sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor dwyieithog yn ogystal â chyfeiriadau at ein partneriaid rhwydwaith ar lefel leol a chenedlaethol.

## Gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth

Mae gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth yn darparu cyngor rhad ac am ddim, cyfrinachol a diduedd am faterion defnyddwyr.

Gall cleientiaid gysylltu â'r gwasanaeth defnyddwyr yn ystod yr wythnos o 9am i 5pm drwy ffonio:

**08454 04 05 05**

i gael y llinell yn yr iaith Gymraeg.

**08454 04 05 06**

i gael y llinell yn yr iaith Saesneg.

# Polisi

Nid dim ond er mwyn cynnig cyngor mewn cyfnod o argyfwng mae gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn bodoli – rydym ni yn defnyddio tystiolaeth leol i ymgyrchu dros newidiadau mewn polisiau a gwasanaethau sydd o fudd i filiynau o bobl bob blwyddyn, drwy atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf.

## Estyn allan at y rhai mwyaf agored i niwed: dull o ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer, yn seiliedig ar dystiolaeth

Mae pob cleient sy'n dod i mewn i ganolfan gyda phroblem yn enghraifft uniongyrchol o bolisiau ac arferion sydd wedi mynd o chwith. Mae Cyngor ar Bopeth yn defnyddio tystiolaeth ddiennw gan gleientiaid i ffurfio sail i'n gwaith polisi.

Defnyddiwn y dystiolaeth fanwl hon i ddangos i wneuthurwyr polisiau a darparwyr gwasanaethau effaith eu polisiau, ac i lobio dros welliannau.

### Mae'r dadansoddiad unigryw a phwysig hwn yn ein galluogi ni i gyflawni'r canlynol:

- tynnu sylw at ddeddfau, polisiau ac arferion annigonol neu annheg
- ymateb gydag awdurdod i ymgynghoriadau'r llywodraeth
- argymhell sut i dargedu adnoddau yn y dull mwyaf effeithiol.

## Ymgyrchoedd a digwyddiadau ledled Cymru

Bydd canolfannau ledled Cymru yn cymryd rhan yn ein hymgyrchoedd cenedlaethol yn ogystal ag ymgyrchu ar faterion lleol. Mae'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yng Nghymru yn hyrwyddo'r gwaith a wneir gan y sefydliad ar lefel genedlaethol a lleol.

Yn ogystal â chefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol a mynychu digwyddiadau allanol megis Eisteddfod Genedlaethol Cymru, mae Cyngor ar Bopeth Cymru a chanolfannau lleol yng Nghymru yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r gwasanaeth drwy gynnal eu digwyddiadau a'u hymgyrchoedd eu hunain.

## Eisteddfod Genedlaethol 2012

Bob blwyddyn, mae'r Eisteddfod yn rhoi llwyfan ardderchog i ni sôn wrth gyllidwyr, partneriaid, Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad am wasanaeth Cyngor ar Bopeth yng Nghymru. Rydym yn ymdrin ag ystod eang o bynciau yn cynnwys canlyniadau ar gyfer ein cleientiaid, gwelliannau yr ydym yn eu gwneud o ran darparu gwasanaeth, gweithio mewn partneriaeth a'r lluo o gyfleoedd a gynigiwn i wirfoddoli.

Yn ogystal â gwaith gyda'r cyhoedd, eleni buom yn cynnal digwyddiad gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i hyrwyddo'u pecyn DVD 'Eich busnes chi yw cam-drin ddomestig', gyda thîm Cyflogaeth a Chydraddoldeb **CAB Casnewydd** hefyd yn hyrwyddo'u gwasanaethau.

Bu i ni hefyd groesawu Carwyn Jones, AC, Prif Weinidog Cymru, a roddodd anerchiad am y modd y mae'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn cyfrannu at wella bywydau pobl yng Nghymru.



# Ymgyrchoedd a digwyddiadau ledled Cymru

## Rhoi beiliaid yn eu lle – CAB Ynys Môn

Mae **Cyngor ar Bopeth Cymru** a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cytuno ar gyfres o ganllawiau arfer gorau ar gyfer casglu ôl-ddyledion treth gyngor a gyhoeddwyd yn y *Protocol arfer da i helpu awdurdodau lleol*. Bu hwn yn gyfle da iawn i ganolfannau weithio'n agosach gyda'u hawdurdod lleol i helpu cleientiaid sy'n cael anawsterau gyda dyledion.

Yn dilyn cynnydd mewn ymholiadau yn **CAB Ynys Môn** roedd y ganolfan yn poeni nad oedd y protocol arfer da yn cael ei ddilyn. Wedi cwrdd â'r Cyngor Sir a'r cwmni beiliaid llwyddodd y ganolfan i gael y cyngor i gytuno i adolygu eu polisi casglu dyledion ac i wneud y canlynol:

- adolygu ei bolisi ar bobl agored i niwed
- defnyddio didyniadau uniongyrchol a gorchmynion atafaelu enillion lle bo'n bosibl
- rhoi mwy o ystyriaeth i'r dyledion a anfonir i'r beiliaid
- galw'n ôl orchmynion pan fo'r dyledwr ar lwfans byw i'r anabl, lwfans cyflogaeth a chymorth neu gyffelyb
- gweithio gyda beiliaid a chanolfannau i ddatblygu model ar gyfer canllawiau casglu treth gyngor.

Mae'r ganolfan yn parhau i weithio gyda'r cyngor ar yr arferion a'r polisiau diwygiedig ac yn monitro'r defnydd o feiliaid i gasglu ôl-ddyledion treth gyngor.



## Diwygiadau budd-dal tai yng Nghymru

Ym mis Chwefror 2013, cyfrannodd **Cyngor ar Bopeth Cymru** at y trafodaethau ynghylch effaith newidiadau i fudd-dal tai yng Nghymru.

Yn ogystal â chyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, gwahoddwyd Cyngor ar Bopeth Cymru hefyd i roi tystiolaeth lafar i'r pwyllgor fel rhan o banel o elusennau i drafod budd-dal tai.

Yn y 12 mis hyd at fis Medi 2012, ymatebodd Canolfannau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru i dros 14,500 o ymholiadau ynghylch budd-dal tai, sef cynnydd o 33 y cant o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Gwelwyd cynnydd o 16 y cant mewn ymholiadau ynghylch tai yn ystod yr un cyfnod.

Gan ddefnyddio tystiolaeth o ganolfannau lleol, bu modd i Cyngor ar Bopeth Cymru ddarparu argymhellion a sylwadau ar y cynigion, gan dynnu sylw at ofynion clir ar gyfer unrhyw drefniadau i'r dyfodol.

Roedd rhan o'r dystiolaeth hon yn cynnwys gwybodaeth a gyflwynwyd gan **Ganolfan Cyngor ar Bopeth Rhondda Taf**. Bu'r gwirfoddolwr polisi cymdeithasol yn y ganolfan yn cynnal arolwg o eiddo rhentu preifat yn yr ardal leol i sefydlu faint fyddai'n fforddiadwy i denantiaid a oedd yn ddibynnol ar fudd-daliadau. Dangosodd yr adroddiad y stoc gyfyngedig iawn a oedd ar gael hyd yn oed cyn effaith diwygio lles a'r rheol tanfeddiannu. Cafodd y dystiolaeth leol hon ei chylchredeg i Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol, gan helpu'r ganolfan i wneud achos busnes i bwyllgor craffu'r awdurdod lleol a'r cabinet. Bu'r ganolfan yn llwyddiannus a derbyniodd £193,000 yn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cynghori.

## Banc Bwyd Dinbych

Drwy ei gwaith polisi cymdeithasol, canfu **Canolfan Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych** fod angen cymorth bwyd mewn argyfwng yn yr ardal. Dangosodd canfyddiadau dechreuol ymchwil Cyngor ar Bopeth o dros 50 o ganolfannau fod dau brif reswm pam fod cleientiaid angen bwyd mewn argyfwng, sef oherwydd oedi o ran derbyn budd-daliadau a sancsiynau ar fudd-daliadau.

Sefydlwyd Banc Bwyd Dinbych gyda chymorth rheolwyr, staff cyflogedig a gwirfoddolwyr Canolfan Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Trussell a chyda rhoddion ariannol gan grwpiau lleol.

Bwriad y banc bwyd yw helpu unigolion a theuluoedd mewn argyfwng, drwy ddarparu cyflenwadau bwyd brys (cesglir y bwyd o archfarchnadoedd, eglwysi a grwpiau lleol eraill). Caiff cleientiaid eu cyfeirio gan wasanaethau rheng flaen a rhoddir taleb bwyd iddynt sy'n eu galluogi i dderbyn eu parcel bwyd. Mae'r ganolfan yn asesu addasrwydd cleientiaid yn erbyn meini prawf a osodwyd gan Ymddiriedolaeth Trussell.

Dywedodd Lowri Smith, Cydlynnydd Polisi Cymdeithasol yn CAB Dinbych ac Ymddiriedolwr ac Ysgrifennydd Banc Bwyd Dinbych "Ers iddo agor ym mis Hydref 2013, mae Banc Bwyd Dinbych wedi bwydo dros 1,200 o bobl ac mae ail fanc bwyd bellach wedi ei agor yn Rhuthun i helpu gyda'r galw cynyddol. Yn ddiweddar, mae'r nifer o bobl sy'n ymweld â Banc Bwyd Dinbych i ofyn am fwyd bob wythnos wedi cynyddu i oddeutu 80 o bobl – bedair gwaith yn fwy nag a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth cyn y Nadolig."



## Wythnos Fawr Arbed Ynni

Yn y 12 mis hyd at fis Hydref 2012 rhoddodd Canolfannau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru gymorth i gleientiaid gyda dros 5,000 o broblemau tloidi tanwydd. Fodd bynnag, canfuwyd gennym mai dim ond 30 y cant a oedd wedi holi eu cyflenwr i weld a oeddynt yn cael y fargen orau – ac roedd llai na 1 o bob 10 wedi newid i gwmni tanwydd arall.

I helpu pobl i arbed arian ar eu biliau ynni, cymerodd **Cyngor ar Bopeth Cymru** a chanolfannau lleol ran yn nigwyddiadau Wythnos fawr Arbed Ynni ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad tri diwrnod ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle derbyniodd dros 600 o bobl wybodaeth a chyngor, yn ogystal â digwyddiadau lleol yng Nghaerdybi, Y Fenni, Llangefni ac Amlwch. Yr oedd yr wythnos (a gefnogwyd gan fudiadau amrywiol yn cynnwys Llais Defnyddwyr, Energy UK, Age UK, National Energy Action ac Ofgem ac a ariannwyd gan y chwe chyflenwr ynni mwyaf) yn anelu at godi ymwybyddiaeth pobl sy'n cael trafferth gyda'u biliau ynni ynghylch sut i gael gafael ar y cymorth sydd ar gael gan asiantaethau cynghori, elusennau, cyflenwyr ynni a'r Llywodraeth.

## Sioeau teithiol 'Mae budd-daliadau yn newid'

Bu **Cyngor ar Bopeth Cymru** yn gweithio mewn partneriaeth â Shelter Cymru a sefydliadau eraill i gynnal 10 sioe deithiol ledled Cymru ym misoedd Chwefror a Mawrth gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth a chyngor ar newidiadau i fudd-daliadau lles, gan egluro'r effaith y gallent eu cael ar deuluoedd ac unigolion a chyfeirio pobl ymlaen i gael cyngor mwy arbenigol. Roedd y lleoliadau'n amrywio o farchnad Caerdybi i Tesco yn Llandrindod. Cyrhaeddodd y digwyddiadau llwyddiannus hyn bron i 800 aelod o'r cyhoedd a chasglwyd tystiolaeth hefyd ar ganlyniadau'r diwygiadau ledled Cymru.

# Gwasanaethau cynghori

Ledled Cymru, mae gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn chwarae rhan ganolog mewn mynd i'r afael ag anghyfiawnder, lleihau tlodi ac allgau cymdeithasol, a galluogi pobl i wireddu eu llawn botensial.

## Cyflwyno cyngor

Mae'r cynghorwyr yn cydnabod bod un broblem, yn aml iawn, yn gallu achosi problem arall, neu'n bodoli oherwydd problem arall, ac yn hytrach na rhoi sylw i un mater ar y tro, maent yn edrych ar sefyllfa'r cleient yn ei chyfanrwydd. Drwy hyn, gellir dod o hyd i broblemau posibl eraill yn fuan, neu eu rhagweld, sy'n eu hatal rhag datblygu i fod yn faterion mwy difrifol.

Mae'r canolfannau wrth galon eu cymunedau ac mae'r gwasanaethau o ansawdd y maent yn eu cynnig yn adlewyrchu proffil y trigolion. Gall hyn olygu defnydd o wasanaethau cyngorwyr amlieithog, neu wybodaeth am faterion lleol penodol.

Mae 2012/13 wedi gweld **cynnydd dramatig o 30 y cant mewn ymholiadau ynghylch budd-daliadau a chredydau treth yng Nghymru**. Mae hyn yn adlewyrchu'n uniongyrchol bryderon cleientiaid o ran effeithiau cyfun diwygio lles a hinsawdd economaidd eithriadol o anodd. Ar lefel leol, mae canolfannau wedi gorfod cynyddu eu darpariaeth o wasanaethau cyngori yn y maes hwn i gwrdd â'r galw er gwaethaf toriadau mewn cyllid.

## Darparu gwasanaeth cyngori i gymunedau: gwasanaethau ar draws Cymru

Llinell Gyngor Cymru – **08444 77 20 20**

Llinell Gyngor Cymru yw gwasanaeth ffôn Cyngor ar Bopeth yng Nghymru, a lansiwyd yn ffurfiol fel gwasanaeth dwyieithog ar draws Cymru yng Ngorffennaf 2010. Ers hynny, mae'r Llinell Gyngor wedi mynd o nerth i nerth, gan ddarparu mynediad cyflym a chyfleus at wasanaethau Cyngor ar Bopeth ledled Cymru.

Yn 2012/13, derbyniodd Llinell Gyngor Cymru dros 127,700 o alwadau gyda 14,000 o alwadau ychwanegol wedi'u trosglwyddo i'n sefydliadau partner.

Bu cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru o fudd mawr a galluogwyd penodi pump o aseswyr cyflogedig ar draws safleoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Ynys Môn a Gwynedd. Mae hyn yn cynyddu gallu'r gwasanaeth yn fawr i ateb y galw o ran galwadau gan gleientiaid. Roedd y cyllid hefyd yn golygu y gellid penodi tri hyfforddwr o ansawdd, gan roi cymorth hynod werthfawr i ganolfannau yng Nghymru drwy werthuso galwadau a hyrwyddo gwelliant parhaus drwy eu cefnogaeth frwd.

**Fel mae'r ystadegau'n dangos, mae'r Llinell Gymorth wedi gweithio'n dda i ni yma yng Ngwynedd. Ar gyfer y gwirfoddolwyr hynny nad ydynt eisiau rhoi cyngor llawn wyneb-yn-wyneb, mae'r Llinell Gymorth yn galluogi aseswyr i wneud cyfraniad gwerthfawr a gwerth chweil i CAB a darparu gwasanaeth rhagorol i aelodau'r cyhoedd. Yma yng Ngwynedd mae gennym bobl o wahanol oedrannau, sgiliau a gwybodaeth yn cydweithio ac yn cefnogi ei gilydd.**

**George Williams  
Rheolwr Darparu  
Gwasanaeth yn CAB  
Gwynedd a De Ynys Môn**

**Rwy'n meddwl eich bod yn gwneud gwaith gwych ac rydych chi wedi fy nghynorthwyo gyda phob dim.**

**Adborth gan gleient**



## Gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth

O fis Ebrill 2012, daeth Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban yn gyfrifol am ddarparu cyngor a gwybodaeth i bobl ledled Prydain Fawr ynghylch eu hawliau defnyddwyr dros y ffôn ac ar-lein.

Mae'r gwasanaeth defnyddwyr yn ehangu ein cynnig i gleientiaid yn awr, mewn hinsawdd anodd pryd y mae angen cyngor i ddefnyddwyr yn fwy nag erioed. Gyda chyflogau wedi'u rhewi, costau'n cynyddu a lefelau uchel o ddyled bersonol, mae llawer o ddefnyddwyr yn cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd.

Yn y flwyddyn gyntaf, ledled Cymru, ymdriniodd y gwasanaeth defnyddwyr â dros 46,000 o achosion. Y tri phrif fater a godwyd oedd:

- ceir ail-law a brynwyd gan ddelwyr annibynnol
- gwasanaethu ceir gan fodurdai annibynnol
- ffonau symudol (cytundebau gwasanaeth).

**Mae pawb yn ddefnyddiwr,** dyna pam fod y gwasanaeth yn un mor bwysig. O ffonau i wresogi cartrefi, mae materion defnyddwyr yn hanfodol i fywyd bob dydd.



Defnyddiwyd model © Citizens Advice/ABCUL 2008

## Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn dal y prif gontract ar gyfer darparu sesiynau Cyngor Ariannol wyneb-yn-wyneb ar draws Cymru. Yn ystod 2012/13, cyflwynodd y gwasanaeth **bron i 5,800 o sesiynau** (sef 110 y cant o darged y prosiect) o **425 lleoliad cymunedol** ledled Cymru.

Mae cyngor ariannol yn helpu pobl i wneud penderfyniadau ariannol ac yn cynnwys pynciau megis:

- creu cyllideb ar gyfer gwariant wythnosol neu fisol
- cynilo a benthyca, yswirio a diogelu cleientiaid a'u teuluoedd
- cynllunio ar gyfer ymddeol
- deall trethi a budd-daliadau lles
- egluro jargon – esbonio'r iaith dechnegol a ddefnyddir yn y diwydiant gwasanaethau ariannol.

Ni fydd y gwasanaeth yn ceisio gwerthu dim byd ac nid yw'n darparu cyngor wedi'i reoleiddio nac yn argymhell cynnyrch neu wasanaethau penodol.

I drefnu apwyntiad yng Nghymru ffoniwch **0300 330 05 20** neu anfonwch e-bost at [moneyadviser@citizensadvice.org.uk](mailto:moneyadviser@citizensadvice.org.uk)



**Gwnaeth y gwasanaeth [Cyngori Ariannol] argraff fawr arnaf ynghyd â'r wybodaeth ar y wefan – fe af adref ac edrych yn iawn ar y wybodaeth ynghylch morgais fel y gallaf deimlo'n hyderus pan af at fenthyciwr morgais i drefnu morgais.**

**Adborth gan gleient**



## Gwasanaethau cyngori lleol

Yn ogystal â chyflwyno'r gwasanaethau llwyddiannus ledled Cymru, mae canolfannau lleol yn gweithio'n galed yn eu cymunedau i sicrhau, beth bynnag fo'r sefyllfa, fod modd iddynt addasu i gwrdd ag anghenion eu hardal leol wrth iddynt newid er mwyn canfod yr atebion gorau ar gyfer eu cleientiaid.



### Cyflogaeth a chydaddoldeb yn CAB Casnewydd

Bu i'r tîm Cyflogaeth a Chydaddoldeb yn **CAB Casnewydd** gynrychioli eu cleient Amy Latham (a welir ar y chwith yn y llun gyda Sian Clarke, Arweinydd Tîm Cyflogaeth a Chydaddoldeb yn CAB Casnewydd) yn ei hawliad am aflonyddu rhywiol yn erbyn ei chyflogwr mewn tribiwnlys cyflogaeth.

Roedd Amy wedi cwyno i'r cwmni drwy'r sianelau cywir ond ddim ond yn rhannol y cadarnhawyd ei chŵyn, gyda'r awgrym mai dim ond 'tynnu coes' ydoedd, ac ni chymerwyd unrhyw gamau yn fewnol.

Cychwynnodd y tîm yn CAB Casnewydd hawliad i'r tribiwnlys cyflogaeth gan gefnogi Amy gydol y broses, ei chynrychioli yn yr adolygiad cyn-gwrandawriad ac yn y gwrandawriad terfynol deuddydd o hyd.

Bu Amy'n llwyddiannus a barnodd y tribiwnlys cyflogaeth yn unfrydol yr aflonyddwyd arni'n rhywiol ar lafar ac yn gorfforol. Dyfarnwyd iawndal o £4,000 iddi am niwed i deimladau.

“  
Doedden ni ddim yn gwybod beth i'w wneud. Roedd eich CAB o gymorth mawr, diolch o galon i chi.  
Adborth gan gleient”

### Darparu cyngor CAB yng Nghaerdydd

Yn dilyn cau CAB Caerdydd ym mis Hydref 2011, daeth pedair canolfan gyfagos ynghyd i ddarparu gwasanaethau cyngor yng Nghaerdydd. Arweiniodd **CAB Bro Morgannwg** y consortiwm (y rhoddwyd yr enw gweithredol '4 CAB Caerdydd' arno) ynghyd â **chanolfannau Caerffili, Casnewydd a Rhondda Taf.**

Er gwaethaf y ffaith iddynt ddechrau heb adeilad nac unrhyw staff a gwirfoddolwyr, bu modd iddynt sefydlu'r gwasanaeth ffôn o fewn pythefnos ac roedd gwasanaeth cyngori wyneb-yn-wyneb ar gael o fewn pedair wythnos.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae 4 CAB Caerdydd wedi llwyddo i gynyddu'r cyllid ac atgyfnerthu'r gwasanaeth. Maent wedi cyflwyno cyngor mewn 12 o leoliadau yng Nghaerdydd ac wedi gweithio'n agos gyda Chyngor Caerdydd i gyflwyno gwasanaethau integredig yn eu Canolfannau Dinasyddion. Yn ystod 2012/13 cynorthwyodd y gwasanaeth dros 7,000 o gleientiaid gyda dros 8,000 o wahanol ymholiadau gan ymdrin â dros 30,000 o wahanol faterion.

## Effaith y cyngor

### Gwell Cyngor, Gwell Bywydau: 2012-2015

Yn 2012 cymeradwyodd Llywodraeth Cymru becyn ariannu £2.2 miliwn ar gyfer Cyngor ar Bopeth Cymru fel rhan o'i Rhaglen Lywodraethu. Mae'r cyllid, sy'n parhau hyd at fis Mawrth 2015, yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i gefnogi darparwyr cyngor y trydydd sector i leihau tlodi drwy gynorthwyo'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.

Mae'r prosiect, a elwir yn Gwell Cyngor, Gwell Bywydau, yn ceisio darparu o leiaf £8 miliwn y flwyddyn o fudd-daliadau lles ychwanegol i gleientiaid, gan gynnwys £1.5 miliwn ar gyfer budd-daliadau anabled plant a £2.2 miliwn ychwanegol o ran manteisio ar fudd-dal treth gyngor a thai. Dengys y rhaglen sut y gall mynediad at wasanaethau cynghori helpu i wella bywydau pobl mewn ardaloedd difreintiedig y mae eu hiechyd yn debygol o gael ei effeithio gan dlodi.

Mae'r cyllid hefyd yn cefnogi gwasanaeth ffôn dwyieithog Cyngor ar Bopeth, Llinell Gyngor Cymru, gan alluogi sicrwydd ansawdd, hyfforddiant a chefnogaeth unffurf i sicrhau cysondeb drwy'r holl wasanaeth.

Mae gwasanaethau fel hyn yn arbed amser ac arian i'r gymdeithas ac i wasanaethau cyhoeddus mewn sawl ffordd, er enghraifft drwy atal digartrefedd, osgoi gweithredu cyfreithiol a helpu pobl i lenwi ffurflenni swyddogol. Yn aml iawn, mae'r cleientiaid yn dweud bod eu hiechyd wedi gwella a bod ganddynt fwy o hyder wedi cael cyngor, ac mae'r ddwy elfen yma'n lleihau'r galw am wasanaethau iechyd ac yn cyfrannu at gymunedau hapusach, mwy integredig.

Er bod gan bob elfen o raglen Gwell Cyngor, Gwell Bywydau ei ffocws penodol ei hun, bydd cynghorwyr yn cyfeirio at ein gwasanaeth cynghori cyfannol lle bynnag y bo angen, gan alluogi cleientiaid i gael mynediad at ganolfannau eraill a gwasanaethau partneriaid.

Yn ystod 2012/13, mae'r gwasanaeth Gwell Cyngor, Gwell Bywydau wedi gweld dros 17,000 o gleientiaid newydd, gyda chyfanswm nifer y cleientiaid yn codi i 21,000 bron, a nifer y materion newydd yn cynyddu i dros 55,000.

Mae'r enillion cyfun a gadarnhawyd am eleni ar gyfer yr ymgyrch yn ei chyfanrwydd dros £16 miliwn, dros ddwywaith y ffigur targed o £8 miliwn.



Ni allaf weld bai ar unrhyw ran o'r gwasanaeth, gwnaeth pawb ei orau i roi cyngor a chymerodd pawb amser i wrando.

**Adborth gan gleient**




### **Problemau ariannol yn achosi cur pen i chi?** **Mynnwch gyngor i'w datrys ac i wella eich iechyd a'ch lles.**

#### **Cyngor Da, Iechyd Da**


Gwasanaethau Cyngor ar Bopeth ar gael ym meddygfa eich Meddyg Teulu a lleoliadau gofal iechyd eraill yng Nghymru.

Y Llinell Gyngor: **08444 77 20 20**  
[www.adviceguide.org.uk](http://www.adviceguide.org.uk)



Adviser to the Welsh Government  
Welsh Government

# Dadansoddiad o broblemau cleientiaid yng Nghymru 2012/13



Categori	2012/13 (%)	Newid o 2011/12 (%)
Budd-daliadau a chredydau treth	45.2%	30%
Nwyddau a gwasanaethau defnyddwyr	1.6%	15%
Dyledion	27.4%	-5%
Addysg	0.3%	3%
Cyflogaeth	6.6%	15%
Cynnyrch a gwasanaethau ariannol	1.5%	-2%
Iechyd a gofal cymunedol	0.7%	9%
Tai	4.8%	10%
Mewnfudo, lloches a chenedligrwydd	0.5%	9%
Cyfreithiol	3.3%	0%
Arall	1.1%	35%
Perthnasoedd a theulu	4.1%	12%
Cyfeirio ac atgyfeirio	1%	-21%
Treth	0.7%	2%
Teithio, trafnidiaeth a gwyliau	0.4%	0%
Cyfleustodau a chyfathrebu	0.7%	2%

## Newidiadau allweddol

### Budd-daliadau a chredydau treth

- Cynnydd o 30 y cant mewn ymholiadau am fudd-daliadau a chredydau treth.
- Y cynnydd mwyaf o un flwyddyn i'r llall – lwfans cyflogaeth a chymorth, budd-dal y dreth gyngor a budd-dal tai.

### Dyledion

- Mae'r ymholiadau wedi aros yn gyson ar y cyfan.
- Y cynnydd mwyaf o un flwyddyn i'r llall – ôl-ddyledion rhent a gorchmynion rhyddhad dyledion, dyledion yn ymwneud â budd-daliadau lles ac ymholiadau am feiliaid.

### Cyflogaeth

- Mae'r ymholiadau wedi cynyddu 15 y cant yn gyffredinol.
- Y cynnydd mwyaf o un flwyddyn i'r llall – ymholiadau am gynlluniau (gan gynnwys hyfforddiant) ar gyfer pobl ddi-waith a datrys anghydfodau.

### Tai

- Mae'r ymholiadau'n dangos cynnydd o 10 y cant.
- Y cynnydd mwyaf o un flwyddyn i'r llall – mynediad at dai a digartrefedd.

# Partneriaethau

Gan ein bod yn gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o wahanol bartneriaid, rydym yn gallu cyrraedd ystod ehangach o grwpiau cleientiaid na phetaem yn gweithio ar ein pennau ein hunain.

Yng Nghymru, rydym yn gweithio gyda phob math o gyrff yn y sector cyhoeddus ac yn y trydydd sector, partneriaid corfforaethol, llywodraeth leol a chenedlaethol, ac ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Diolch i gymorth y partneriaid niferus sydd gennym, rydym wedi gallu cyrraedd y cannoedd o filoedd o bobl a chymunedau sydd ein hangen fwyaf, a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i lawer iawn o fywydau, gan fynd i'r afael â'u problemau a'u helpu i wneud dewisiadau doeth.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn cynnig manteision amlwg i bawb sy'n gysylltiedig oherwydd bod modd i ni fanteisio ar arbenigedd, enw da a chyrhaeddiad ein gilydd. Yn bwysicach na dim, drwy gydweithio, gallwn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ychwanegol i ragor o bobl.

## Partneriaethau a phrosiectau'r canolfannau

### Prosiect Working Links

Mae **Cylch Conwy District CAB** wedi bod yn cynnig gwasanaethau cynghori i gleientiaid Working Links ers diwedd 2011. Working Links yw'r prif gontractwr ar gyfer y Rhaglen Waith, sy'n darparu cymorth personol i hawlwyrr sydd angen help ychwanegol i chwilio am waith ac i aros mewn gwaith.

Mae'r ganolfan yn rhoi cyngor llawn dros y ffôn i helpu'r cleientiaid mwyaf agored i niwed i ddelio â phroblemau mewn meysydd fel budd-daliadau, dyledion a thai, a allai eu hatal rhag cael gwaith yn llwyddiannus.

Mae cynghorydd cyffredinol dwyieithog yn gweithio ar y llinell ffôn bwrpasol rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, sy'n golygu bod problem y cleient yn cael sylw ar unwaith. Cedwir cysylltiad â'r cleient dros y ffôn, drwy e-bost a drwy'r system bost.

Hyd yn hyn, mae'r gwasanaeth wedi delio â dros **500 o ymholiadau** gan gleientiaid Working Links ar draws **20 o'r 22 ardal awdurdod lleol**. Y tri phrif fater sydd wedi codi yw budd-daliadau lles, dyledion a chyflogaeth.

Dros y naw mis diwethaf, bu cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r gwasanaeth hwn gan gleientiaid a staff Working Links. Gan fod diwygio lles yn cael cryn dipyn o effaith ar gleientiaid, rydym yn disgwyl y bydd y galw am y gwasanaeth hwn yn parhau.



### Cynhwysiant digidol yn Abertawe

Ers mis Mai 2012, mae **CAB Abertawe** wedi cael ei ariannu gan BT Openreach i gynnal prosiect peilot cynhwysiant digidol i dargedu pobl nad oes ganddynt fynediad at y rhyngwrwd. Mae'r sesiynau, sydd wedi'u cynllunio'n benodol o amgylch Adviceguide, yn helpu grwpiau sy'n cynnwys rhwng 8 a 10 o bobl i ddod o hyd i gymorth. Mae hyfforddwr ar y safle yn gweithio gydag unigolion yn y grŵp i'w galluogi i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt eu hunain. Mae'r prosiect hefyd yn cyfeirio pobl nad oes ganddynt fynediad at y rhyngwrwd at adnoddau yr ymddiriedir ynddynt ar-lein, prosiectau a gwasanaethau Cyngor ar Bopeth, a phartneriaid eraill.

Llwyddodd y prosiect – a ddaeth i ben yn ystod mis Mawrth 2013 – i ddarparu 615 o sesiynau hyfforddi i fwy na 450 o bobl yn ystod ei oes.

“

Roeddwn i'n teimlo mai fy mhroblem fwyaf i oedd nad oeddwn i'n deall fy mhroblem. Doeddwn i ddim yn gallu stopio fy hun...roedd siarad â rhywun oedd wedi'i hyfforddi i helpu a deall yn gysur go iawn. Byddwn i'n bendant yn argymhell y gwasanaeth hwn. Diolch yn fawr!

**Adborth gan gleient**

”

## Help i bobl sydd â phroblem gamblo

Erbyn hyn, mae **CAB Casnewydd** yn cynnig gwasanaeth newydd sy'n rhoi cymorth i unrhyw un sy'n poeni am gamblo. Mae hyn yn golygu, am y tro cyntaf, fod cymorth un-i-un ar gael i bobl sydd â phroblem gamblo yn Ne Cymru. Drwy weithio mewn partneriaeth ag Addiction Recovery Agency, mae CAB Casnewydd bellach wedi datblygu gwasanaeth llwyddiannus tu hwnt. Cynhaliwyd dros 200 o sesiynau yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac roedd y canlyniadau'n gadarnhaol a'r adborth yn rhagorol.

Mae'r ganolfan wedi bod yn hyfforddi asiantaethau partner yng Nghasnewydd a'r cyffiniau i'w galluogi i ganfod gamblo sy'n achosi problem a chynnig cyngor buan. Mae'r ganolfan yn derbyn achosion wedi'u cyfeirio gan ganolfannau eraill a drwy asiantaethau partner, a gall pobl gyfeirio eu hunain hefyd. Wrth i'r gwasanaeth fynd i'w ail flwyddyn, mae nifer y cleientiaid sy'n cael eu cyfeirio yn dal i gynyddu, ac mae gwasanaeth galw heibio ar gyfer cleientiaid newydd yn cael ei sefydlu.

Mae CAB Casnewydd yn defnyddio'r rhyngwrdd a'r cyfryngau cymdeithasol i ledaenu'r gair am gamblo'n gyfrifol. Mae defnyddio'r dull hwn o hyrwyddo'r gwasanaeth yn hollbwysig

gan fod gamblo ar y rhyngwrdd a gamblo symudol wedi ychwanegu at y cynnydd mewn gamblo a phroblemau'n ymwneud â gamblo.



Hoffwch ni ar Facebook  
**Chwiliwch am 'Support for problem gambling'**

Dilynwch ni ar Twitter  
**[twitter.com/HelpGambling](https://twitter.com/HelpGambling)**

## Cymorth i bobl a ddiodefodd yn sgil y llifogydd yn Sir Ddinbych

Ddiwedd mis Tachwedd y llynedd, gorlifodd yr afonydd sy'n llifo drwy Ruthun a Llanelwly eu glannau, ac effeithiodd y llifogydd ar bron i 500 o gartrefi. Aeth aelodau o staff **CAB Sir Ddinbych** i'r canolfannau argyfwng ar unwaith i helpu pobl i ymdopi ar ôl colli eu cartrefi a'u heiddo.

Yn y ganolfan, bu'r staff yn rhoi cymorth ymarferol i helpu pobl i ddod o hyd i ddillad, esgidiau ac eitemau ar gyfer y cartref, ac yn rhoi cyngor i gynorthwyo i alluogi pobl i ymdopi â'r argyfwng. Mae CAB Sir Ddinbych wedi dal ati i gynnig y cymorth hwn i'r rheini y mae'r llifogydd wedi effeithio arnynt drwy ddigwyddiadau, cymorthfeydd, sesiynau galw heibio a gwasanaethau'r ganolfan.

Ym mis Ebrill 2013, dyfarnodd y Gronfa Loteri Fawr arian i CAB Sir Ddinbych, ynghyd ag asiantaethau partner eraill fel Mind Cymru a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, i barhau i gynnig y cymorth hwn am 12 mis arall. Mae'r bartneriaeth hon yn dangos pa mor effeithiol yw gwir gydweithio er mwyn datrys problem gyffredin.


# Gwirfoddoli

## Buddiannau i bawb

Mae gwirfoddoli mewn canolfan yn rhoi budd aruthrol i'r gymuned leol. Cyfrannodd ein gwirfoddolwyr yng Nghymru werth dros **£2.5 miliwn** o oriau rhyngddynt yn 2012/13. Heb eu brwdfrydedd a'u haelioni, byddai'r gwasanaeth yn ei chael yn anodd iawn goroesi, a byddai'r gost i'r economi yn sgil problemau heb eu datrys yn codi.

Mae gwirfoddolwyr CAB yn elwa o hyfforddiant am ddim a chefnogaeth barhaus, ac mae eu costau'n cael eu talu. Mae'r hyfforddiant yn arwain at gymhwyster achrededig sydd, ochr yn ochr â'r profiad o wirfoddoli ei hun, yn helpu pobl i ddatblygu sgiliau ar gyfer bywyd y tu hwnt i'w cyfnod yn y ganolfan. O blith y gwirfoddolwyr a adawodd y gwasanaeth yn 2012/13, aeth 30 y cant ohonynt ymlaen i addysg bellach neu i waith cyflogedig.

I bobl iau, mae gwirfoddoli'n cynnig profiadau newydd, yn rhoi hwb i hyder a hefyd yn cynnig llwybr i fyd gwaith neu fyd addysg. Mae ein gwirfoddolwyr hŷn, neu'r rheini sydd wedi ymddeol, yn dweud ei fod yn eu cadw'n weithgar ac yn eu helpu i gadw mewn cysylltiad â'r gymuned. Mae hefyd yn golygu y gallant 'roi rhywbeth yn ôl'. Yr hyn sy'n gyffredin ymhlith y gwirfoddolwyr i gyd yw eu bod nhw'n teimlo ei fod yn brofiad unigryw sy'n rhoi llawer iawn o foddhad.



## Gwirfoddolwr CAB Sir y Fflint yn cario'r Ffagl Olympaidd

Mae Bill Bradshaw, 81, (sydd i'w weld yn y llun uchod ac ar y chwith gyda Salli Edwards, Prif Weithredwr, CAB Sir y Fflint) wedi gwirfoddoli i **CAB Sir y Fflint** am gyfnod mwy na neb arall, ar ôl gwasanaethu'r ganolfan am 32 o flynyddoedd. Cyn hynny, roedd yn gweithio mewn diwydiant gydag undebau llafur, ac ar hyn o bryd mae'n aelod anrhydeddus o Unite the Union. Mae Bill hefyd wedi chwarae golff yn broffesiynol. Yn ogystal â gwirfoddoli am ddau ddiwrnod yr wythnos gyda CAB Sir y Fflint, mae Bill hefyd yn llwyddo i ddod o hyd i'r amser i ddysgu golff i blant.

Cafodd Bill ei enwebu am yr anrhydedd o gario'r Ffagl Olympaidd i gydnabod yr holl waith da y mae wedi'i wneud yn gwirfoddoli yn ei gymuned leol.

Roedd staff a gwirfoddolwyr CAB Sir y Fflint wrth eu boddau bod Bill wedi cael y cyfle hwn, ac roedd pawb oedd yn gwylio yn dweud bod y profiad yn un emosynol iawn ac na fydd neb yn ei anghofio!

## Dros 600

dyma faint o wirfoddolwyr sy'n rhan o'r gwasanaeth drwy Gymru, gan gynnwys ymddiriedolwyr sy'n wirfoddolwyr.

## Dros £2.5 miliwn

dyma werth y gwaith a wneir gan ein gwirfoddolwyr ar y farchnad.

Mae bron i 900 o bobl yn gweithio yn y gwasanaeth ledled Cymru, ac mae dros 600 o'r rheini yn wirfoddolwyr sy'n dod o wahanol gefndiroedd ac yn meddu ar wahanol sgiliau. Maent yn cyflawni dyletswyddau amrywiol, gan gynnwys rhoi cyngor, codi arian, gwaith TG, gweinyddu a chyhoedduswydd, ymgyrchu a gweithredu fel ymddiriedolwyr.



## Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

Roedd yn bleser gan **Ganolfan Cyngor ar Bopeth Caerffili a Blaenau Gwent** dderbyn y wobwr 'Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr' ar ôl blwyddyn o baratoi.



Fel gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr, mae CAB Caerffili a Blaenau Gwent wedi deall pwysigrwydd dangos ymrwymiad i wirfoddolwyr erioed. Mae'n gwneud hyn drwy roi hyfforddiant a chanllawiau clir ar gyfer eu swyddogaethau a'u datblygiad, a chydabod y gwaith y maent yn ei wneud. Bydd y wobwr yn rhoi hyder i'r rheini sy'n gwirfoddoli yn y ganolfan yn barod, ac yn annog pobl eraill i ymuno â'r tîm.

Dywedodd Simon Ellington, Prif Weithredwr, CAB Caerffili a Blaenau Gwent: "Mae'n galonogol gwybod ein bod yn cyrraedd y safonau uchel rydym yn anelu atynt, a byddwn yn defnyddio'r profiad o gael achrediad i wella mwy byth ar ein harferion a'n polisiau. Roedd yn brofiad gwerth chweil i'r staff ac i'r gwirfoddolwyr."

## I wirfoddoli ar ran eich canolfan CAB leol:

- ewch i [www.citizensadvice.org.uk/join-us](http://www.citizensadvice.org.uk/join-us)
- cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol.



# Sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ariannu

Mewn hinsawdd ariannol anodd, credwn ei bod yn hanfodol bod awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn cydweithio â chyllidwyr strategol eraill i sicrhau bod anialdiroedd cyngor yn cael eu dileu yng Nghymru.

## Ariannu ar lefel Cymru gyfan

Mae'r arian craidd y mae canolfannau lleol yn ei gael gan awdurdodau lleol ledled Cymru yn hanfodol i dalu costau seilwaith y canolfannau. Mae hefyd yn gweithredu fel ffordd o ddenu arian prosiect ychwanegol ar gyfer y tymor byr, i sicrhau bod gwasanaethau ychwanegol ar gael i gymunedau lleol.

Mae'r cyllidwyr allweddol eraill eleni yn cynnwys:

- **Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol:** Ar ôl ail flwyddyn lwyddiannus o roi cyngor ariannol wyneb-yn-wyneb ledled Cymru, mae'r arian yn parhau i 2013/14.
- **Y Lleng Brydeinig Frenhinol:** Mae'r prosiect Gwasanaeth Cyngori ar Fudd-daliadau ac Arian, a ariennir gan y Lleng Brydeinig Frenhinol, yn darparu ar gyfer lleoli gweithwyr achos ym maes cyngor ar fudd-daliadau ac arian mewn nifer o ganolfannau ar draws Cymru. Canolbwyntir ar roi cyngor ar ddyledion a budd-daliadau a chymorth i bersonél y Lluoedd Arfog, cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a'u dibynyddion.
- **Cyngor wyneb-yn-wyneb ar ddyledion:** Mae'r prosiect cyngor wyneb-yn-wyneb ar ddyledion yn cael ei ariannu gan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol. Cafodd mwy na 10,000 o gleientiaid newydd eu gweld gan y gwasanaeth hwn yng Nghymru yn ystod 2012/13. Mae'r arian hwn wedi cael ei ymestyn a bydd yn parhau tan fis Mawrth 2014.
- **Arian i liniaru'r diffyg ariannol ar gyfer asiantaethau cyngori unigol:** Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid blwyddyn gwerth bron i £1 filiwn i liniaru toriadau ariannol i wasanaethau cyngori yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Roedd yr arian hwn ar gyfer CAB ac asiantaethau cyngori eraill ar draws Cymru.

## Ariannu ar lefel leol yng Nghymru

### CAB Powys a Sefydliad Henry Smith

Yn ddiweddar, mae **CAB Powys** wedi llwyddo i sicrhau £99,000 dros dair blynedd gan Sefydliad Henry Smith. Nid yw polisi ariannu presennol y Sefydliad yn cynnwys Cyngor ar Bopeth. Dewiswyd CAB Powys yng Nghymru, ynghyd â thair canolfan yn Lloegr, i gyflwyno cynnig i dreialu'r prosiect tair blynedd.

Dechreuodd y prosiect ar 1 Ebrill 2013 ac mae wedi cyflogi gweithiwr achos/cynghorydd ffôn sydd â llawer o brofiad a sgiliau er mwyn cynnig gwasanaeth dros y ffôn dri diwrnod yr wythnos. Bydd y Prosiect Allgymorth Gwledig dros y Ffôn yn gwella mynediad at gyngor cyffredinol a gwaith achos ym maes dyledion a budd-daliadau lles yn ardal wledig Powys. Mae'r cynllun peilot yn benodol, ond nid yn gyfyngedig, i'r cleientiaid hynny sydd o dan anfantais gymdeithasol oherwydd daearyddiaeth, anawsterau cludiant, anabledd, cyfrifoldebau gofalu ac incwm isel.





## CAB Gwynedd yn sicrhau £465,000 gan y Gronfa Loteri Fawr

Bydd y prosiect pum mlynedd hwn yn rhoi sylw i'r anghydbwysedd yn y ddarpariaeth cyngor a gwybodaeth rhwng y cymunedau mwyaf anghysbell ac anodd eu cyrraedd a'r ardaloedd mwy trefol yng Ngwynedd. Gwneir hyn mewn partneriaeth â Mantell Gwynedd drwy ddefnyddio'r bws symudol a'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf.

Dywedodd Mr Gwilym Evans, Cadeirydd **CAB Gwynedd a De Ynys Môn** "Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol ac mae'n dangos ein hymrwymiad i wella gwasanaethau cynghori yn ardaloedd gwledig Gwynedd. A minnau'n byw yn Nolgellau, rwy'n ymwybodol iawn o'r pryder ymhlith pobl Meirionnydd nad yw bob amser yn hawdd cael gafael ar wasanaethau. Rydym yn ymateb yn gadarnhaol i'r pryder hwnnw."

Mae mwy i'r dyfarniad, a wnaed o dan Raglen Awydd am Arloesi y Gronfa Loteri Fawr, na bws symudol; mae'n ymwneud â'r math o wasanaeth a fydd yn cael ei ddarparu. Am y tro cyntaf, bydd unigolion sydd angen cyngor arbenigol mewn meysydd fel dyledion, budd-daliadau lles a chyflogaeth, yn gallu cael y cyngor hwnnw mewn amser real drwy we-gamerâu mewn lleoliad ger eu cartrefi – hyn oll drwy gysylltiadau lloeren i fand eang, lle bynnag maent yn byw.

Dywedodd Cemlyn Williams, Prif Weithredwr CAB Gwynedd a De Ynys Môn "Rydym yn ddiolchgar i'r Gronfa Loteri Fawr am fod yn barod i roi cymorth ariannol i'r prosiect hwn. Rydym wedi cydnabod bod pobl, yn y gorffennol, wedi cael trafferth cael mynediad at ein gwasanaeth yn ardaloedd mwy gwledig Gwynedd; bydd y prosiect hwn yn ein helpu i fynd i'r afael â'r broblem honno. Ar ben hyn, un o'r prif newidiadau yn niwygiadau lles y Llywodraeth yw cyflwyno ffurflenni hawlio budd-daliadau digidol. Erbyn hyn, gall pobl sy'n byw yn ardaloedd gwledig y sir, ac sy'n methu cael mynediad at y rhyngwyd neu sydd â chysylltiad band eang gwael, ddefnyddio'r gwasanaeth hwn os dymunant i lenwi unrhyw ffurflenni cais am fudd-daliadau ar-lein. Wrth gwrs, mae'r ffaith bod [ein] gwasanaeth CAB am ddim, yn gyfrinachol ac yn ddiuedd yn helpu."

## Cyngor cyflogaeth CAB Sir y Fflint

Mar grant Sefydliad Lloyds TSB wedi galluogi **CAB Sir y Fflint** i sefydlu a rhedeg gwasanaeth galw heibio am gyngor cyflogaeth un diwrnod yr wythnos yn yr Wyddgrug.

Drwy'r gwasanaeth, mae'r ganolfan wedi llwyddo i gynnig cyngor a chymorth i fwy na 100 o gleientiaid newydd hyd yma, yn ogystal â pharhau i ddarparu cymorth i gleientiaid presennol.

Y rheini sydd wedi cael budd o'r gwasanaeth yw pobl oed gwaith sy'n byw ac yn gweithio yn Sir y Fflint y byddent, fel arall, yn wynebu anfantais oherwydd diffyg gwybodaeth am eu hawliau cyflogaeth neu nodwedd warchoddedig fel anabled, oed, rhywioldeb neu ryw. Mae'r gwasanaeth galw heibio yn arbennig wedi bod yn fuddiol i'r rheini na fyddent, fel arall, wedi gallu cael gafael ar wasanaethau eraill oherwydd eu hadnoddau ariannol cyfyngedig, ac i rai cleientiaid gydag anawsterau llythrennedd/dysgu.

Drwy roi cyngor a chymorth arbenigol, mae pobl wedi elwa o'r wybodaeth a'r gefnogaeth i allu ymdrin â'u problemau cyflogaeth/gwahaniaethu.

## CAB Bro Morgannwg a Teuluoedd yn Gyntaf

Yn 2012/13, derbyniodd **CAB Bro Morgannwg** gyllid gan Teuluoedd yn Gyntaf. Bu'r ganolfan yn gweithio'n agos gyda'r tîm Teuluoedd yn Gyntaf yn y Fro i gynorthwyo teuluoedd gydag anghenion cymhleth a oedd angen cymorth aml-asiantaeth.

Darparwyd gwasanaeth gwaith achos ym maes dyledion/budd-daliadau lles, gan ganolbwyntio cryn dipyn ar weld cleientiaid yn eu cartrefi. Bu'r ganolfan hefyd yn cynnal nifer o gyrsiau hyfforddi i weithwyr rheng flaen ar bynciau fel rheoli arian, ymwybyddiaeth o ddyledion a budd-daliadau lles. Yn ogystal, cynhaliodd y ganolfan gynhadledd lwyddiannus iawn ar ymwybyddiaeth o ddiwygio lles ("A cut too deep?") ym mis Tachwedd 2012, lle'r oedd 120 o weithwyr rheng flaen a gwleidyddion lleol yn bresennol.

Yn ystod rhan olaf y flwyddyn, cynhaliodd y ganolfan ymgyrch rheoli arian mewn ysgolion uwchradd yn y Fro. Roedd hyn yn cynnwys gwneud gwaith ymchwil i'r hyn yr oedd pobl ifanc yn ei ddeall am arian, ac yn sgil y gwaith ymchwil hwnnw cynhaliwyd amrywiaeth o sesiynau ynghylch sut i reoli arian. Rhoddodd hyn y gallu i'r ganolfan ymgysylltu â phobl ifanc na fyddent wedi defnyddio'r gwasanaeth CAB cyn hynny, nac yn gwybod amdano hyd yn oed.

Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd ymgyrch ar wefan "Swoosh!" ar y cyd â Vibe Experience, mudiad i bobl ifanc yn y Fro.

## Cyfanswm y cyllid yng Nghymru 2012/13 – dros £12.3 miliwn

Bydd y gwasanaeth CAB yng Nghymru yn parhau i chwilio am gyfleoedd ariannu er mwyn gwneud yn siŵr bod cleientiaid ar hyd a lled Cymru yn gallu cael gafael ar y cyngor angenrheidiol ar gyfer eu problemau.

Awdurdod lleol	£3,600,000
Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol	£1,800,000
Y Gronfa Cynhwysiant Ariannol/Cyngor wyneb-yn-wyneb ar ddyledion	£1,500,000
Cyllid gan Lywodraeth Cymru	£1,800,000
Y Gronfa Loteri Fawr	£400,000
Arall	£3,100,000

I weld dadansoddiad manwl o sefyllfa ariannol pob un o'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth, gweler adroddiadau blynyddol unigol y canolfannau.


Ffigurau rhagarweiniol wrth fynd i'r wasg.

“

Rhoddodd [y cyngorydd] ei holl amser a'i wybodaeth i ni. Fydden ni ddim wedi gallu cael gwell cyngor. Diolch.

Adborth gan gleient

”



## Ein nodau

- Rhoi'r cyngor sydd ei angen ar bobl i ddelio â'r problemau maent yn eu hwynebu.
- Gwella'r polisiau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

## Ein hegwyddorion

Mae gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn cynnig cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd i bawb am eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a hynny'n rhad ac am ddim. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu.

Cyngor ar Bopeth Cymru  
Tŷ Quebec  
Castlebridge  
5-19 Heol y Bont-faen  
Caerdydd  
CF11 9AB

Ffôn: 02920 376750  
Ffacs: 02920 341541

Llinell Gyngor Cymru: **08444 77 20 20**

Gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth:

**08454 04 05 05** (Cymraeg)

**08454 04 05 06** (Saesneg)

**[www.citizensadvice.org.uk](http://www.citizensadvice.org.uk)**

**[www.adviceguide.org.uk](http://www.adviceguide.org.uk)**

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth.  
Rhif cofrestru'r elusen: 279057

© Cyngor ar Bopeth Cymru 2013. Ni cheir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ymlaen llaw, ac eithrio at ddibenion adolygu neu gyfeirio.

Cynhyrchwyd gan Cyngor ar Bopeth Cymru  
Mehefin 2013

Llun y clawr: © Justin Piperger